

Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru – Cymorth i Weithwyr Llawrydd

CANLLAWIAU

Dyma grant i roi cymorth ariannol i weithwyr llawrydd yn y sectorau diwylliannol sy'n wynebu heriau ariannol o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – DIBEN Y GRANT

Diben y grant yw cynorthwyo gweithwyr llawrydd yn y sectorau diwylliannol sy'n wynebu sialensiau ariannol yn y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn rhoi cymorth i fusnesau presennol ac unigolion sy'n ystyried dechrau busnes neu weithio'n llawrydd, neu ddechrau fel unig fasnachwr. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu cymorth wedi'i deilwra sy'n cynnwys mynediad at offer ar-lein, gweithdai a gweminarau ar amrywiaeth o bynciau busnes, cyngorwyr a mentoriaid. Gall ein cyngorwyr eich helpu i ddatblygu cynllun gweithredu, darparu cyngor busnes ac ariannol a'ch helpu i gael gafael ar gymorth arall neu rwydweithiau ehangach y gallech elwa arnynt.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://businesswales.gov.wales/cy>.

Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – PWY GAIFF WNEUD CAIS?

Mae cymorth ar gael i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol llawrydd y mae gan eu gwaith ganlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol, sy'n gweithio yn y pedwar is-sector allweddol:

- Celfyddydau;
- Diwydiannau Creadigol;
- Digwyddiadau Celfyddydol a Threftadaeth;
- Diwylliant a Threftadaeth.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r Gwiriwr Cymhwysedd yn <https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy>

Byddwch hefyd yn gymwys os ydych yn cael eich cyflogi'n rhan-amser a bod gennych fusnes creadigol proffesiynol llawrydd hefyd. Fodd bynnag, nod y grant hwn yw helpu gweithwyr llawrydd sydd yn yr angen mwyaf oherwydd eu bod wedi colli incwm o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Os ydych wedi cael cymorth blaenorol naill ai gan Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'ch bod yn wynebu heriau ariannol, rydych yn dal yn gymwys ar gyfer y gronfa hon.

Ni fyddwch yn gymwys:

- Os ydych yn gweithiwr llawrydd yn y sector chwaraeon;
- Os ydych wedi derbyn cyllid yn ddiweddar gan y Grant Cychwyn a lansiwyd ym Mehefin 2020 i helpu busnesau newydd i ymdopi â chanlyniadau'r coronafeirws (COVID-19)

Mae'r cyllid hwn yn benodol ar gyfer yr is-sectorau creadigol a diwylliannol a'r rheini y bu rhaid iddynt roi'r gorau i weithio a/neu sy'n cael trafferth aildechrau oherwydd effaith cyfyngiadau COVID-19. Ni ddylai'r rheini sydd wedi llwyddo i barhau ar lefelau o weithgarwch sy'n agos at lefelau blaenorol (penseiri, dylunwyr graffig, dylunwyr gemau ac ati) gyda neu heb gymorth wneud cais.

Bydd angen i weithwyr llawrydd ddarparu:

Tystiolaeth adnabod (un o'r canlynol):

- i. Trwydded yrru cerdyn-llun y DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
- ii. Pasbort cyfredol wedi'i lofnodi;
- iii. Tystysgrif Geni wreiddiol;
- iv. Arall (nodwch).

Tystiolaeth o'ch cyfeiriad (un o'r canlynol):

- i. Bil cyfleustodau;
- ii. Cyfriflen banc;
- iii. Datganiad ffôn symudol.

Tystiolaeth o rywfaint o waith rhwng mis Ebrill 2019 a Gorffennaf 2020 a/neu dystiolaeth o waith a ganslwyd rhwng mis Ebrill 2020 a Mawrth 2021. Noder na fydd angen tystiolaeth o waith ar gyfer yr holl gyfnod uchod. Os na allwch ddarparu'r dogfennau perthnasol oherwydd absenoldeb mamolaeth/rhiant neu fabwysiadu, rhowch wybod i ni.

Mae enghreifftiau o sut y gellir darparu hyn yn cynnwys:

- Contract / contractau wedi eu canslo;
- Anfonebau;
- Geirda gan y cyflogwr / cadarnhad gan gyflogwr fod gwaith wedi cael ei ganslo;
- Llythyr cynnig gwaith/canslo gwaith
- Cadarnhad o grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru;
- Arall (bydd angen ichi nodi).

Gwybodaeth arall y mae'n rhaid ei darparu:

- copi diweddar o gyfriflen ar gyfer eich banc personol (mae angen hwn i wirio eich manylion banc – ni fydd yn cael ei ddefnyddio i werthuso eich cais);
- Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) os oes un gennyh, contractau o dan gynllun talu wrth ennill, neu dystiolaeth arall fel P60 neu dystiolaeth o gyflogaeth ar gontractau tymor byr;
- CV (neu broffil manwl ar gyfrif LinkedIn).

Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – AM FAINT Y CEWCH CHI WNEUD CAIS?

Mae grant o £2,500 ar gael fesul unigolyn, i roi cymorth uniongyrchol gyda llif arian parod i helpu drwy'r cyfnod a amharwyd.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, a'r Awdurdod Lleol fydd â'r disgrisiwn llwyr i dalu'r grant – yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau hyn.

ADDUNED GWEITHWYR LLAWRYDD

Yn aml, mae pobl greadigol yn cymryd rhan yn eu cymuned, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i'n lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru alluogi diwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus yn ogystal â meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. Mae cyfle yn awr i weithwyr llawrydd creadigol a chyrrff cyhoeddus greu partneriaeth i gyflawni hyn. Drwy eich annog i ymuno a'r Adduned Gweithwyr Llawrydd, gobeithiwn y gallwch ddod â'ch sgiliau i'n helpu i ddod â chreadigrwydd a dychymyg i bob maes o fywyd cyhoeddus.

Gallai hyn fod yn cyd-greu atebion gyda'r gymuned, gan gyfrannu at gynllunio a datblygu lleol neu ddod â dulliau newydd o ymdrin â phrosiectau cyfalaf. Gallai hyn fod mewn meysydd fel diwylliant hyd at iechyd neu ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd adeiledig. Efallai y bydd gennyh brofiad eisoes o weithio yn y maes cyhoeddus gyda phartneriaid, bod yn artist sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, yn aelod o Gymdeithas Rieni ac Athrawon neu'n ymddiriedolwr neu'n weithredol yn eich cymuned sy'n defnyddio eich profiad byw i wneud newid cadarnhaol.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o hyn, dewiswch yr Adduned Gweithwyr Llawrydd. Byddwn yn defnyddio eich manylion i'ch hysbysu a'ch cynnwys mewn datblygiadau. Rydym yn gwerthfawrogi sgiliau a phrofiad gweithwyr llawrydd. Byddem yn disgwyl i unrhyw ymrwymadau sy'n deillio o hyn gael eu talu.

Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – SUT I WNEUD CAIS

Gall unigolion wneud cais am y grant drwy ddefnyddio Gwiriwr Cymhwysedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar wefan Busnes Cymru yn <https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy>

Os ydych yn gymwys ar gyfer y grant byddwch yn cael eich cyfeirio at wefan eich awdurdod lleol lle byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais ar-lein **neu** cewch ofyn am ffurflen gais gan eich awdurdod lleol. Dylech wneud cais drwy'r awdurdod lleol rydych yn byw ynddo yn hytrach na'r un lle rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith.

Bydd angen ichi gwblhau'r holl feysydd y gofynnwyd amdanynt ynghyd â'r dogfennau tystiolaeth gofynnol. Derbynnir tystiolaeth ar ffurf dogfennau a ffotograffau wedi eu sganio at y diben hwn.

Os hoffech lenwi'r ffurflen hon mewn fformat gwahanol anfonwch ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Os nad oes gennych y cyfleusterau i gwblhau'r ffurflen gais hon ar-lein, ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Bydd y Grant i Weithwyr Llawrydd yn agor ar ddydd Llun 5 Hydref. Bydd Cam 1 ar agor am gyfnod byr, wedi'i ddilyn yn fuan gan ail gam. Bydd yr amser mae pob cam ar agor a'r bwch rhwng pob cam yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a dderbynnir. Mae'r grant yn cael ei weithredu yn y ffordd fesul cam hon i'n galluogi i asesu'r galw yn erbyn y cyllid sydd ar gael – yn ogystal â rhoi digon o amser i weithwyr llawrydd baratoi ceisiadau.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr i bennu hyd a thelerau'r gronfa.

Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Eich manylion personol

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, 'yr ymgeisydd'.

Adran 2 – Gwybodaeth am eich gwaith

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich gwaith a'i ystod. Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

Adran 3 – Effaith COVID-19 arnoch chi

Mae angen inni ddeall sut mae'r argyfwng COVID-19 wedi effeithio arnoch chi a'ch gwaith. Wrth gwblhau'r adran hon gofynnir ichi roi cymaint o fanylder ag y bo modd, i'n helpu ni i ddeall pam mae angen cymorth arnoch drwy'r cyllid grant hwn. Gall gwybodaeth pellach gael ei ddarparu drwy gyflwyno CV cyfredol.

Adran 4 – Manylion banc

Rhowch fanylion eich cyfrif banc gan y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.

Adran 5 – Datganiadau

Darllenwch y datganiadau'n ofalus a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y datganiadau. Noder y bydd angen i chi optio i mewn neu allan o'r adduned gweithwyr llawrydd. Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllaw hon.

Cymorth De Minimis

Rhaid ichi ddatgan os ydych wedi derbyn unrhyw Gymorth Gwladwriaethol De Minimis yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf (h.y. yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol), ynghyd â'r swm a dderbyniwyd a manylion y corff dyfarnu.

Beth yw Cymorth De Minimis?

Er mwyn lleihau gwrthdroad cystadleuaeth i'r lefel isaf posibl, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu terfyn ar faint o gymorth y ceir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Dan reoliad 1407/2013 yr UE (rheoliad Cymorth De Minimis) fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24/12/2013 mae'r cymorth yn gymorth de minimis. Mae terfyn o €200,000 (€100,000 ar gyfer gweithrediadau y sector cludo nwyddau ar y ffordd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a ddarperir i un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a ddarperir i chi o dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol. Rhowch wybod i ni nawr am unrhyw gymorth de minimis arall a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, gan y bydd angen i ni sicrhau na fydd ein cymorth ni, ar ôl ei ychwanegu at yr hyn a gafwyd eisoes, yn fwy na'r trothwy o €200,000 (€100,000 ar gyfer gweithrediadau y sector cludo nwyddau ar y ffordd) dros y 3 blynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r cymorth yn cynnwys nid yn unig grant ond hefyd gymorth megis gwasanaethau cynghori am ddim neu â chymhorthdal, cyngor marchnata etc. Os oes gennych unrhyw amheuaeth o ran a yw'r cymorth a dderbyniwyd eisoes yn cyfrif fel cymorth de minimis dylech ei gynnwys.

RHESTR WIRIO

Rhaid anfon tystiolaeth adnabod, tystiolaeth o waith, cyfrifon banc, cyfeirnod treth unigryw (UTR) ac unrhyw dystiolaeth arall fel CV / proffil manwl ar gyfrif LinkedIn gyda'ch ffurflen gais ar ôl ei chwblhau, fel y nodir ar dudalen 1 a 2 o'r ddogfen hon.

Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Cydnabyddir bod eich cais wedi cael ei dderbyn o fewn deg diwrnod gwaith.

Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwybodaeth o wiriadau a gynhelir ar ffynonellau arall. Os rhoddir data anghyflawn neu anghywir **byddwn yn cysylltu â chi, ond os nad yw ymholiadau wedi'u bodloni**, gwrthodir y cais. Ein nod yw prosesu ceisiadau grant o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

Os yw eich cais yn cael ei gymeradwyo byddwch yn derbyn llythyr cynnig grant drwy e-bost yn eich hysbysu y bydd y grant yn cael ei ddyfarnu. Bydd y cynnig grant yn para am 14 diwrnod – os na dderbynnir y grant o fewn y cyfnod hwn bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw. Rhaid i ymgeiswyr dderbyn y cynnig drwy e-bost cyn y gellir gwneud y taliad.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

GRANT GWEITHWYR LLAWRYDD – AD-DALU'R GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os yw tystiolaeth yn dod i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y Grant i Weithwyr Llawrydd.